Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llawlyfr Rheoli Datblygu

Adran 9 Atodiad: Cyfarwyddiadau ar gyfer Safle Amhenodol

OGL © Crown copyright 2016 Digital ISBN 978-1-4734-9503-6 WG31886

Adran 9 Atodiad

Cyfarwyddiadau ar gyfer Safle Amhenodol

Cynnwys

Adran		Isadran
1	Cyflwyniad	
2	Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Nwyeiddio Glo Tanddaearol) (Cymru) 2016	
		Nwyeiddio Glo Tanddaearol
		Gofynion hysbysu

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r atodiad hwn yn darparu canllawiau ar gyfarwyddiadau ar gyfer safleoedd amhenodol. Ar hyn o bryd mae'r atodiad hwn yn cynnwys Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Nwyeiddio Glo Tanddaearol) (Cymru) 2016 yn unig. Mae canllawiau ar gyfarwyddiadau eraill i'w canfod yn y dogfennau y cyfeirir atynt yn Ffigur 7 yn y Llawlyfr.

2.0 Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Nwyeiddio Glo Tanddaearol) (Cymru) 2016

2.1 Cyflwynwyd y cyfarwyddyd er mwyn ei gwneud yn orfodol i unrhyw gais cynllunio sy'n gysylltiedig â nwyeiddio glo tanddaearol o fewn strata creigiau gael ei gyfeirio at Weinidogion Cymru pan fydd awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) o blaid eu cymeradwyo. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i unrhyw gais perthnasol am ganiatâd cynllunio sydd wedi'i gofrestru yn gais dilys ar neu ar ôl 25ain Mawrth 2016.

Nwyeiddio Glo Tanddaearol

2.2 Mae nwyeiddio glo tanddaearol yn broses lle bydd aer, ocsigen a stêm yn cael eu chwistrellu i wythiennau glo ar ddyfnder, er mwyn tanio'r glo yn rhannol i greu nwy a elwir yn Syngas.

Gofynion hysbysu

2.3 Mae'r cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol, pan na fydd ACLl yn cynnig gwrthod cais i nwyeiddio glo tanddaearol, mae'n rhaid i'r awdurdod hysbysu Gweinidogion Cymru. Pan fydd yn ofynnol i ACLl roi hysbysiad o'r fath i Weinidogion Cymru, ni

ddylai'r awdurdod roi caniatâd cynllunio ar y cais hyd at ddiwedd y cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig yw'r dyddiad y maent wedi derbyn y wybodaeth a nodir yn y Cyfarwyddyd. Fodd bynnag, gall y ACLl fwrw ymlaen i wneud penderfyniad ar y cais os bydd Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod 21 diwrnod hwnnw, yn hysbysu'r awdurdod nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu galw'r cais dan sylw i mewn o dan adran 77 Deddf 1990 o ran y cais hwnnw, neu os nad yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y datblygiad yn ddatblygiad olew a nwy anghonfensiynol.

2.4 Mae'r gofynion yr un fath â'r rhai a gynhwysir yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Olew a Nwy Anghonfensiynol) (Cymru) 2015, pan fydd ei ddogfen ganllaw atodedig hefyd yn berthnasol i'r Cyfarwyddyd hwn.